



Ymateb Llywodraeth Cymru

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Mehefin 2024

Ar 8 Ebrill 2024 cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad blynyddol ar hynt Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gymhlethdodau'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ('y Cynllun') a'r gwaith mawr sydd ei angen o hyd i sicrhau bod pob dinesydd cymwys yn gallu cadarnhau ei statws preswyllydd cyn-sefydlog neu sefydlog. Nodir y cyfeiriad penodol at y cymunedau mwyaf ymylol a heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y gymuned Roma, fel pryder parhaus.

Mae'n ymddangos bod yr adroddiad yn adleisio pryderon y mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid wedi'u trafod mewn perthynas â'r newidiadau i'r Cynllun, gan gynnwys cau'r 'Llwybr Trwydded Teulu' ac "Adolygiadau Gweinyddol". Mae pwysigrwydd ymgysylltu a'r angen i gryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn thema gref drwy gydol yr adroddiad.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y
Pwyllgor.

Cynnwys

1.	Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE	4
2.	Argymhelliad 1.....	6
3.	Argymhelliad 2.....	8
4.	Argymhelliad 3.....	10
5.	Argymhelliad 4	11
6.	Argymhelliad 5.....	12
7.	Casgliad.....	14

1. Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Ers mis Mehefin 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfres o gymorth am ddim i ddinasyddion o'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir sy'n dymuno aros yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyson benderfynol o sicrhau bod y dinasyddion hynny sydd wedi dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt yn teimlo eu bod yn aelodau gwerthfawr o'n cymunedau.

Ers dechrau'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, gwnaed dros 122,690 o geisiadau gan drigolion Cymru ac mae llawer o'r unigolion hynny wedi defnyddio rhyw fath o gymorth i gwblhau eu ceisiadau.

Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun) fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatblygu Grŵp Cydlynu'r UE i roi fforwm i randdeiliaid yng Nghymru i godi a thrafod materion. Parhaodd y fforwm tan ddiwedd 2023 a bu'n gynhyrchiol, gan agor deialog ynghylch sut mae'r Cynllun yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Mae Fforwm Dinasyddion yr UE bellach wedi cymryd lle'r Grŵp Cydlynu'r UE. Mae'r fforwm yn darparu man drafod materion ehangach a brofir gan ddinasyddion yr UE.

Mae'r gefnogaeth hyd yma, a gyflwynwyd yn 2019, wedi golygu bod dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd wedi gallu cael gafael ar gymorth digidol, cael help gydag ymholiadau sylfaenol am gymhwysedd, cael gafael ar gyngor ar faterion lles cymdeithasol a hawliau yn y gweithle a chael cyngor arbenigol ar fewnfudo am ddim gan ein partneriaid a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Hyd at fis Mawrth 2024, roedd y cymorth hwn hefyd yn cynnwys cyngor gan Newfields Law, arbenigwyr cyfreithiol ar fewnfudo.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu dinasyddion yr UE yng Nghymru. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y canlynol yn parhau: cymorth a chyngor am ddim wrth wneud cais, cynorthwyo aelodau agos o'r teulu, cael mynediad at hawliau neu symud o statws preswyllydd cyn-sefydlog i statws preswyllydd sefydlog.

Rydym yn parhau i bryderu am nifer dinasyddion yr UE yng Nghymru nad ydynt efallai wedi gwneud cais i'r cynllun preswyllo am wahanol resymau, neu sydd angen cymorth parhaus i uwchraddio'u statws ac mae Llywodraeth Cymru yn

parhau â'i gwaith allgymorth yn y maes hwn. Rydym yn croesawu'r rôl y mae ein rhanddeiliaid yn parhau i'w chwarae o ran sicrhau bod y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf yn ein cymunedau yn gallu cael gafael ar gymorth. Rydym yn falch ein bod wedi gallu ymestyn ein cyllid yn ddiweddar er mwyn i sefydliad ' ~~eu~~ ^{eu} barhau â'i wasanaeth cynghori ar y Cynllun tan fis Mawrth 2025.

Yn ogystal â'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU wedi ariannu partneriaid yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau cymorth ychwanegol yng Nghymru ac mae wedi cynnal deialog ar lefel weithredol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn parhau i wneud penderfyniadau ynghylch y cynllun, sy'n effeithio ar drigolion Cymru, heb unrhyw drafodaethau blaenorol nac ymgysylltiad â'r Llywodraethau Datganoledig.

Rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU a wnaed ar 21 Mai 2024, yn amlinellu'r newidiadau i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i gefnogi ymhellach weithredu dyfarniad yr Uchel Lys mewn Adolygiad Barnwrol a ddygwyd gan yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn sicrhau bod holl ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein Taflenni Ffeithiau am yr UE, yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau. Byddwn yn parhau i gyfeirio at y gwasanaethau cynghori perthnasol drwy ein Cenedl Noddfa i sicrhau bod y rhai sy'n chwilio am gyngor yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau hyn yn brydlon.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad ar y cynllun Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rwy'n falch iawn i weld bod argymhellion y Pwyllgor yn gyson â'n cynlluniau nawr ac yn y dyfodol. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Lesley Griffiths AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

Mehfin 2024

2. Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraethau Cymru a'r DU yn cydweithio ar roi'r newidiadau i'r Cynllun ar waith, yng ngoleuni eu goblygiadau pwysig i ddinasyddion Ewrop sy'n byw yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae'r newidiadau diweddar i'r Cynllun, sy'n cynnwys newidiadau i 'sail resymol', cau 'Adolygiadau Gweinyddol' a gweithredu canlyniad yr Adolygiad Barnwrol, wedi arwain at gynnydd mewn achosion cymhleth a phryderon dilynol rhanddeiliaid.

Bydd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i gyfarfodydd fforwm Swyddfa Gartref y DU i sicrhau ein bod yn parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau sy'n dod i'r amlwg. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae swyddogion y Swyddfa Gartref wedi od i Fforwm Dinasyddion yr UE Llywodraeth Cymru i ddarparu diweddariadau a mynd i'r afael â chwestiynau rhanddeiliaid o Gymru.

Fodd bynnag, mae her sylweddol o hyd o ran sefydlu ymgysylltiad cynnar â Llywodraeth y DU ar newidiadau i'r Cynllun cyn iddynt gael eu cyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ymgysylltu'n effeithiol â ni, mewn da bryd, ar bob agwedd ar y Cynllun.

Ym mis Mehefin 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip blaenorol at Weinidog Gwladol y DU dros Fewnfudo ar y pryd, i fynegi ein siom nad oedd unrhyw ymgysylltiad ar gam 1 o'r newidiadau i ganllawiau'r Cynllun yn dilyn yr Adolygiad Barnwrol. Roedd hynny wedi ei gwneud yn anodd iawn i ni gefnogi ein rhanddeiliaid allanol ac yn anochel wedi arwain at fwy o ansicrwydd iddynt. Unwaith eto, gwnaethom ofyn am ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid Cymru ynghylch datblygu cam 2. Byddai hyn yn ein galluogi i reoli'r goblygiadau i ddinasyddion yr UE yng Nghymru, ynghyd â'u disgwyliadau. Yn anffodus, anwybyddwyd yr alwad am ymgysylltiad unwaith eto.

Er bod Llywodraeth Cymru yn croesawu cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU yn hysbysu y bydd hyd estyniadau statws cyn-sefydlog yn cynyddu o 2 i 5

mlynedd, a bod dyddiad dod â statws preswyllydd cyn-sefydlog i ben yn cael ei ddileu o broffiliau digidol, mae'n siom na roddwyd unrhyw hysbysiad i ni cyn gwneud y cyhoeddiad. Hyd nes y bydd Llywodraeth y DU yn ateb ein galwadau am ymgysylltu, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu am well ymgysylltu.

Goblygiadau Ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol gan fod hyn yn cael ei wneud fel rhan o weithgarwch busnes dydd i ddydd Llywodraeth Cymru.

3. Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn monitro ceisiadau hwyr o Gymru yn ofalus, er mwyn pennu goblygiadau newidiadau i'r Cynllun – gan gynnwys meini prawf culach a chau llwybrau Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE – ar ddinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru tan ddiwedd 2025, o leiaf.

Ymateb: Derbyn

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gasglu'r data ar geisiadau i'r Cynllun, sy'n cael eu rhyddhau i'r cyhoedd bob chwarter. Dengys yr ystadegau diweddaraf a ryddhawyd y cafwyd 587,310 o geisiadau hwyr ledled y DU hyd at 31 Mawrth 2024. Nifer y ceisiadau hwyr ar gyfer Cymru yw 22,840. Mae'r ffigwr hwn yn is nag yn y Gwledydd Datganoledig eraill, gyda'r Alban â 60,550 o geisiadau hwyr a 34,570 o geisiadau hwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o geisiadau am welliannau o ran casglu data i'n galluogi i gael data a all ein helpu i ddeall yr angen am gymorth ar lefel Awdurdod Lleol yn y dyfodol. Mae'n dda gweld bod cais diweddar am ddata ar nifer dinasyddion yr UE sydd eisoes wedi'u huwchraddio'n awtomatig i Statws Sefydlog wedi'i fodloni. Ni allwn rannu'r data hwn gan nad ydynt wedi'u rhyddhau i'r parth cyhoeddus ac ni fyddant yn cael eu rhannu â Llywodraethau Datganoledig fel mater o drefn.

Ochr yn ochr â chasglu data, rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gael dealltwriaeth o'r problemau y mae dinasyddion yr UE yng Nghymru yn parhau i'w hwynebu a'r cymorth y maent yn ceisio'i gael trwy ein partneriaid. Rydym wedi cael gwybod am bryderon rhanddeiliaid am y newidiadau diweddar a gyhoeddwyd i "seiliau rhesymol" ar gyfer ceisiadau hwyr. Er mwyn caniatáu i'r rhai sydd ag achosion cymhleth gael gafael ar gymorth, rydym wedi ymestyn ein cyllid i'r sefydliad ' *eu* tan fis Mawrth 2025. Yn ogystal, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd y cyllid presennol ar gyfer ' *eu* a TGP Cymru i ddarparu gwasanaethau cymorth ychwanegol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y rhai mwyaf bregus ymhlith dinasyddion yr UE yn gallu cael gafael ar gymorth ar gyfer y dyfodol agos, o leiaf.

Goblygiadau ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol gan fod hyn yn cael ei wneud fel rhan o weithgarwch busnes dydd i ddydd Llywodraeth Cymru.

4. Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi dinasyddion Ewrop sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini sy'n cyflwyno cais i'r Cynllun.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor.

Gan fod ceisiadau'n dal i gael eu cyflwyno a bod yr opsiwn o adolygiad gweinyddol wedi'i ddileu, mae'n amlwg bod angen gwasanaethau cynghori ar y Cynllun o hyd. O ganlyniad i geisiadau'n cael eu gwrthod gan Swyddfa Gartref y DU, mae rhanddeiliaid Cymru wedi gweld mwy o geisiadau am gyngor a chymorth cyn ymgeisio.

Rydym yn ymwybodol bod cymhlethdod ceisiadau i'r Cynllun yn cynyddu'r galw am gymorth. Dyna pam y dewisodd Llywodraeth Cymru barhau i ariannu'r sefydliad Trydydd Sector, *Settled*, tan fis Mawrth 2025. Bydd y cyllid hwn yn galluogi ' *eu* i barhau i gynnig cymorth a chynghori i ddinasyddion yr UE yng Nghymru.

Fel rhan o'n pecyn cymorth, rydym wedi creu Taflenni Ffeithiau ar yr UE. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefannau *llyw.cymru* a *Noddfa*. Rydym wedi datblygu'r rhain fel bod dinasyddion yr UE yn deall eu hawliau o ran meysydd fel gwaith, rhent, tai ac iechyd ac yn cael eu cyfeirio at gefnogaeth, pe bai ei angen arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu Fforwm Dinasyddion newydd yr UE yn ddiweddar sy'n rhoi cyfle i randdeiliaid a chynrychiolwyr dinasyddion yr UE yng Nghymru godi ymwybyddiaeth o broblemau. Bydd swyddogion polisi yn parhau i fonitro'r angen parhaus am gymorth â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ynghyd â chymorth i ddelio â'r materion ehangach y gallai Dinasyddion yr UE fod yn eu hwynebu. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi anghenion y dyfodol.

Goblygiadau ariannol: Mae'r galw parhaus am gymorth yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Gyhyd ag y bydd yr angen am gymorth yn cael ei ddangos, byddwn yn parhau i ystyried rhoi cymorth cyllidol o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru.

□

5. Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn parhau i dargedu ei chymorth gyda'r Cynllun at grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n agored i niwed, gan gynnwys y gymuned Roma.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ers lansio Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu a gweithio gyda gwasanaethau cymorth i sicrhau bod dinasyddion bregus yr UE o fewn cymunedau sy'n wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at gymorth a gwasanaethau, yn cael eu targedu a'u cefnogi. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau sy'n wynebu pobl o fewn grwpiau ar y cyrion ac nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Mae TGP Cymru, sefydliad Trydydd Sector blaenllaw, yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth y DU a'r Eŷ, i gynnig cymorth penodol i gymunedau Roma. Rydym yn falch bod aelodau TGP Cymru yn parhau i gymryd rhan weithredol yn ein fforwm newydd ar gyfer dinasyddion yr UE fel llais i'r Gymuned Roma.

Ein gobaith yw y bydd datblygu'r Fforwm newydd hwn i ddinasyddion yr UE yn meithrin cysylltiadau ychwanegol â chynrychiolwyr ledled Cymru a all ein Helpu i godi ymwybyddiaeth ac atgyfeirio pobl, yn enwedig o fewn cymunedau ar y cyrion, sy'n aml yn wynebu cryn rwystrau rhag cael cymorth.

Goblygiadau ariannol: Mae'r galw parhaus am gymorth yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Gyhyd ag y bydd yr angen am gymorth yn cael ei ddangos, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried rhoi cymorth cyllidol o fewn ein cyllidebau blynyddol.

6. Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Nodwn ymateb y Gweinidog, nad yw hi'n ymwybodol o unrhyw broblemau penodol i ddinasyddion Wcráin yn sgil cau llwybr Trwydded Teulu'r Cynllun. Serch hynny, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i fonitro'r sefyllfa hon ac i hysbysu'r Pwyllgor os bydd y sefyllfa'n newid.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi dinasyddion Wcráin sy'n byw yng Nghymru ac yn monitro unrhyw broblemau y gallent fod yn eu hwynebu. Hyd yn hyn, nid ydym wedi cael unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu bod dinasyddion Wcráin yn cael problemau sy'n ymwneud â chau llwybr Trwydded Teulu'r Cynllun.

Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2024 caeodd llwybr fisa'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin i ymgeiswyr newydd ac ni allai llwybr fisa Cartrefi i Wcráin gael ei ddefnyddio bellach gan rai â statws dros dro i noddi perthnasau i ymuno â nhw yn y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref, yn gofyn am ehangu cynllun Aduno Teuluoedd Llywodraeth y DU i'w neud yn fwy hygyrch i geiswyr noddfa a chanddynt aelodau o'u teuluoedd yn y DU, waeth beth yw eu cenedligrwydd. Ni chafwyd ymateb yn sgil yr Etholiad Cyffredinol.

Os daw unrhyw broblemau i'n sylw, byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod amdanynt yn brydlon.

Goblygiadau ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol gan fod hyn yn cael ei wneud fel rhan o weithgarwch busnes dydd i ddydd Llywodraeth Cymru.

7. Casgliad

Rydym yn croesawu canlyniadau ac argymhellion Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r argymhellion fel rhan o'n gwaith parhaus o fonitro a chefnogi dinasyddion yr UE a'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig eraill i rannu arfer gorau a thrafod pryderon. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â'r Awdurdod Monitro Annibynnol i gefnogi eu hymchwiliadau a'u hadolygiadau i sicrhau bod canllawiau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae datblygu'r fforwm newydd i Ddinasyddion yr UE yn gam cadarnhaol ymlaen a bydd swyddogion polisi yn parhau i ychwanegu at yr aelodaeth i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol wedi'u nodi.

Dros weddill y flwyddyn ariannol hon, bydd trafodaethau â ' *eu* ' ein sefydliad a ariennir, yn parhau i adolygu cynnydd a sefydlu gofynion ar gyfer gwasanaethau cynghori yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i annog Llywodraeth y DU i ymgynghori'n briodol ac yn effeithiol â'r Llywodraethau Datganoledig a'r rhanddeiliaid ar benderfyniadau ynghylch y cynllun yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod safbwynt Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried. Bydd swyddogion polisi yn parhau i fynd i gyfarfodydd rhanddeiliaid Llywodraeth y DU ac yn gofyn i'r swyddogion perthnasol o Swyddfa Gartref y DU ddod i gyfarfodydd chwarterol ein Fforwm Dinasyddion yr UE.